

Y R E G L W Y S  
Y N G N G H Y M R U



T H E C H U R C H  
I N W A L E S

---

**Comisiwn Litwrgaidd Ymgynghorol Sefydlog  
yr Eglwys yng Nghymru**

**Amseroedd a Thymhorau (Rhan Tri):  
O Sul y Drindod hyd at Dymor y Deyrnas**

**Y fersiwn terfynol:  
i'w gyflwyno i'r Corff Llywodraethol  
yn Ebrill 2021**

---

**The Standing Liturgical Advisory Commission of  
the Church in Wales**


**Times and Seasons (Part Three):  
Trinity Sunday to the Kingdom Season**

**Final version:  
for presentation to the Governing Body  
in April 2021**

---



Y R E G L W Y S  
Y N G N G H Y M R U



T H E C H U R C H  
I N W A L E S

---

**Comisiwn Litwrgaidd Ymgynghorol Sefydlog  
yr Eglwys yng Nghymru**

**Amseroedd a Thymhorau (Rhan Tri):  
O Sul y Drindod hyd at Dymor y Deyrnas**

**Y fersiwn terfynol:  
i'w gyflwyno i'r Corff Llywodraethol  
yn Ebrill 2021**

---

**The Standing Liturgical Advisory Commission of  
the Church in Wales**

**Times and Seasons (Part Three):  
Trinity Sunday to the Kingdom Season**

**Final version:  
for presentation to the Governing Body  
in April 2021**

---

*Comisiwn Litwrgaidd Ymgynghorol Sefydlog yr Eglwys yng Nghymru*

# **Amseroedd a Thymhorau (Rhan Tri): O Sul y Drindod hyd at Dymor y Deyrnas**

*Y fersiwn terfynol: i'w gyflwyno i'r Corff Llywodraethol yn Ebrill 2021*

---

## **CYNNWYS**

### **3.1 Rhagarweiniad Bugeiliol a Litwrgaidd**

### **3.2 Sul y Drindod**

### **3.3 Tymor y Deyrnas**

- .1 Yr Holl Saint
- .2 Yr Holl Eneidiau
- .3 Y Cofio
- .4 Crist y Brenin
- .5 Tymor y Deyrnas - cyffredinol

### **3.4 Dyddiau'r Categorïau**

*The Standing Liturgical Advisory Commission of the Church in Wales*

# ***Times and Seasons (Part Three): Trinity Sunday to the Kingdom Season***

*Final version: for presentation to the Governing Body in April 2021*

---

## **CONTENTS**

### **3.1 Pastoral and Liturgical Introduction**

### **3.2 Trinity Sunday**

### **3.3 The Kingdom Season**

- .1 All Saints' Day
- .2 All Souls' Day
- .3 Remembrance
- .4 Christ the King
- .5 Kingdom Season – general

### **3.4 Ember Days**

### 3.1 RHAGARWEINIAD BUGEILIOL A LITWRGAIDD

‘Ysbryd yw Duw, a rhaid i’w addolwyr ef addoli mewn ysbryd a gwirionedd.’ (*Ioan 4: 24*)

O Sul y Drindod hyd at wyl Crist y Brenin caiff yr Eglwys gyfle i fyfrio ar ddirgeledd Duw ac ystyried, hefyd, yr alwad i fod yn genhadon a disgyblion.

Mae Sul y Drindod yn wyl anarferol oherwydd mai cadarnhau athrawiaeth a wneir yn hytrach na choffáu pobl neu ddigwyddiadau ym mywyd Crist. Cyfyngedig, o reidrwydd, fydd unrhyw ymgais i esbonio natur Duw, ond mae Sul y Drindod yn dathlu a chydabod y dirgeledd sydd yng nghraidd y Duwdod. Mae litwrgi’r Sul hwn yn ein harwain yn ddyfnach i’n bywyd o ffydd, gan gydnabod presenoldeb Duw yn ein byw beunyddiol wrth inni weddio ar y Tad, drwy’r Mab ac yn nerth yr Ysbryd Glân: tri pherson yn un Duw.

Yn dilyn dathlu dirgeledd y Drindod dechreuwn ar gyfnod o ‘Amser Cyffredin’ sy’n gyfle i ffydd flodeuo’n doreithiog. Yn draddodiadol, dyma’r adeg pan ordeinir diaconiaid ac offeiriaid. Ar Ddyddiau’r Categoriâu, wrth inni weddio am alwedigaethau a thros y rhai a ordeinir, cawn ein herio ‘i gadw ynghyn y ddawn a roddodd Duw iti’ (*2 Tim 1:6*). Wedi gweledigaeth Eseiâ o angylion o gylch gorsedd Duw yn datgan ‘Sanct, Sanct, Sanct,’ (*Eseiâ 6:1-3*) dychwelwn i’r ddaear yn sain y comisiwn Trindodaidd: ‘Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o’r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw’r Tad a’r Mab a’r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw’r holl orchmynion a roddais i chwi...’ (*Mathew 28:19-20*). Mae her ac mae dathlu yn perthyn i Dymor y Categoriâu.

Wedi’r tymor hwn, a’i bwyslais ar yr alwad i fod yn ddisgybl, daw Tymor y Deyrnas, sy’n gymharol newydd ac a grewyd yn sgîl yr angen i roi ffurf i goffadwriaethau sy’n canolbwyntio ar y ddaear a’r nefoedd a Brenhiniaeth Crist dros bopeth. Am mai’r arfer boblogaidd yn awr, yn enwedig mewn cylchoedd addysgol, yw dathlu’r Nadolig yng nghanol yr Adfent rhydd Tymor y Deyrnas gyfle ychwanegol inni gyfeirio ein meddyliau at Deyrnas Crist a’i ddyfodiad mewn gogoniant. Dechrau’r tymor yw Gwyl yr Holl Saint sydd ar y cyntaf o Dachwedd, ond a symudir yn aml i’r Sul dilynol, ‘Sul yr Holl Saint.’ Am fod yr wyl hon yn gyfle i sôn am ffydd, ac yn ein hatgoffa o’r alwad i fod yn Saint yn y byd heddiw, gellid ystyried sut mae cyfleu hanesion am ffydd yn sensitif oddi mewn i fframwaith litwrgaidd - efallai lle ceir y bregeth fel arfer, neu mewn gwasanaeth llai ffurfiol. Mae Gwyl yr Holl Eneidiau ar yr ail o Dachwedd, yn gyfle bugeiliol i gymell galarwyr i ailgyflwyno eu hanwyliaid i ofal Duw. Erbyn hyn mae nifer o eglwysi yn cynnig gwasanaeth i deuluoedd a gollodd anwyliaid yn y flwyddyn flaenorol, lle gellir cynnau kannwyll er cof am yr ymadawedig. Mae ymgynnull i gofio am ofal Duw yn amser galar hefyd yn nodweddu Sul y Cofio, pan elwir i gof y rhai a fu farw mewn rhyfel yng ngoleuni’r addewid am gyfiawnder a thangnefedd y Deyrnas Dragwyddol. Daw’r tymor a’r flwyddyn litwrgaidd i ben ar wyl Crist y Brenin sy’n ein dwyn yn ôl at ddirgeledd Duw tra disgwyliwn am ddyfodiad teyrnasiad Crist, a pharatoi, yn yr Adfent, i ddweud, ‘Maranatha,’ – ‘Tyrd, Arglwydd Iesu!’ (*Datguddiad 22:20*)

Ar gyfer yr Ewcharist y mae’r adnoddau hyn ond gellir cael adnoddau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau eraill yn *Llyfr Gweddi Ddyddiol 2009*, yr Eglwys yng Nghymru.

### 3.1 PASTORAL AND LITURGICAL INTRODUCTION

‘God is Spirit, and those who worship him must worship in Spirit and in Truth.’ (*John 4.24*)

The period from Trinity Sunday to the feast of Christ the King is a time for the Church to explore both the mystery of God and our call to mission and discipleship.

Trinity Sunday is unusual in being a feast which commemorates neither people nor events in the life of Christ, but the affirmation of a doctrine. Any attempt to explain the nature of God is necessarily limited, but Trinity Sunday celebrates and acknowledges the mystery at the heart of the Godhead. The liturgy for this Sunday moves us deeper into our life of faith, acknowledging God’s presence in our lives as we pray to the Father, through the Son and in the power of the Holy Spirit: three persons in one God.

Following the celebration of the mystery of the Trinity we enter a period of ‘Ordinary Time’, and an opportunity for an extraordinary growth in faith. During this period the ordination of deacons and priests traditionally takes place. On the Ember Days, as we pray for vocations and those to be ordained, we are challenged to ‘rekindle the gift of God that is in you’ (*2 Timothy 1.6*). From Isaiah’s vision of angels around the throne of God crying ‘Holy, Holy, Holy’ (*Isaiah 6.1-6*) we come down to earth with the Trinitarian commission: ‘Go therefore and make disciples of all nations, baptising them in the name of the Father and of the Son and of the Holy Spirit, and teaching them to obey everything that I have commanded you...’ (*Matthew 28.19-20*). Embertide is both celebratory and challenging.

This season of discipleship culminates in the Kingdom Season. A relatively recent season, it arises from the need to provide shape to commemorations focussing on earth and heaven with Christ’s Kingship over all. As, particularly in educational settings, Christmas is now popularly celebrated in the middle of Advent, the Kingdom Season allows additional space to set our minds on the Kingdom of Christ and his coming in glory. The Season begins with the celebration of All Saints on 1<sup>st</sup> November, often moved to the following Sunday as ‘All Saints Sunday.’ As All Saints is an opportunity to share stories of faith, reminding us of our call to be Saints in the world today, consideration might be given as to how such stories can be told sensitively within a liturgical context, perhaps through the ‘sermon slot’ or in a less formal service. All Souls [2<sup>nd</sup> November] is a pastoral opportunity for the bereaved to recommit their loved ones to God’s care. Many churches now offer a service for families who have held funerals over the past year to come and light a candle in memory of those who have died. This collective reminder of God’s care in time of grief is also a feature of Remembrance Sunday, which recalls those who died in war within the context of the promise of God’s eternal Kingdom of justice and peace. Finally, the season and the liturgical year culminates in the feast of Christ the King which brings us back to the mystery of God as we look for the coming reign of Christ and prepare in Advent to say ‘Maranatha’ – ‘Even so, come Lord Jesus.’ (*Revelation 22.20*)

The resources here are for the Eucharist, but additional seasonal resources for other services are available in the Church in Wales *Daily Prayer* book 2009.

## 3.2 SUL Y DRINDOD

### Rhagarweiniad i'r Gyffes

Yng Nghrist mae Duw'r Tad yn maddau inni a'n hiacháu ni drwy'r Ysbryd Glân:  
Cyffeswn ein pechodau i Dduw ein Hiachawdwr.

*Distawrwydd*

*Neu:*

Wrth inni ymgynnull i offrymu ein haddoliad i'r Drindod sanctaidd, ddiwahân,  
yr ydym yn galw i gof a chyffesu ein pechodau.

*Distawrwydd*

*Neu:*

'Sanct, Sanct, Sanct yw ARGLWYDD Dduw y Lluoedd.' (Eseia 6:3-7)

A ninnau'n hiraethu am ein glanhau gan gyffyrddiad tân Duw ar ein gwefusau aflan,

fel yr â ein hanwiredd ymaith ac y maddeuir ein pechod,

yr ydym yn galw i gof a chyffesu ein camweddau.

*Distawrwydd*

### Y Kyriau

Arglwydd Iesu Grist, ymgawdoledig Air Duw,  
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

Arglwydd Iesu Grist, yn Dduw ac yn ddyn,  
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**

Arglwydd Iesu Grist, y Doethineb oddi uchod,  
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

### Gweddi i gyflwyno'r rhoddion

Dduw, ein Creawdwr, ein Gwaredwr a Rhoddwr ein Bywyd,  
derbyn y rhoddion hyn,

a ddygwyd o'r ddaear a luniaist

ac a ffurfiwyd gan ddwylo dynol,

drwy'r gras a ddaw ohonot ti yn unig.

Dyro i ni, wedi ein nerthu â'th allu a'n hadnewyddu â'th gariad,

fod yn gyfrannog o'th fywyd dwyfol.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

### Rhaglithiau

#### Syml

Yr wyt yn datguddio mai'r un yw d'ogoniant,

â gogoniant dy Fab a'r Ysbryd Glân:

tri pherson cydradd mewn mawredd,

a diwahân mewn gogoniant,

yn un Arglwydd, un Duw,

i'w addoli a'i fawrygu'n wastadol.

*Cymun Bendigaid 2004*



## 3.2 TRINITY SUNDAY

### Introduction to Confession

In Christ God the Father forgives us and heals us through the Holy Spirit:  
Let us confess our sins to God our Saviour.

*Silence*

*Or:*

As we gather to offer our worship to the holy and undivided Trinity,  
we call to mind and confess our sins.

*Silence*

*Or:*

'Holy, holy, holy is the Lord God almighty.'

*Isaiah 6.3-7*

As we long for the fire of God's cleansing to touch our unclean lips,  
for our guilt to depart and for our sin to be blotted out,  
we call to mind and confess our sins.

*Silence*

### Kyries

Lord Jesus Christ, Word of God incarnate,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

Lord Jesus Christ, human yet divine,  
Christ, have mercy. **Christ, have mercy**

Lord Jesus Christ, Wisdom from on high,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy**

### Prayer over the gifts

God, our Creator, Saviour and Life-giver,  
receive these gifts,  
brought forth from the earth you formed  
and fashioned by human hands,  
through the grace which comes from you alone.  
Grant that, strengthened by your power and renewed by your love,  
we may share in your divine life.  
We ask this in the name of Jesus Christ our Lord. **Amen.**

### Prefaces

#### Simple

You reveal your glory  
as the glory of your Son and the Holy Spirit:  
three persons equal in majesty,  
undivided in splendour,  
one Lord, one God,  
ever to be worshipped and adored.

*CinW HE2004*

## Estynedig

Ac yn awr rhoddwn ddiolch i ti  
oherwydd yr wyt yn datguddio mai'r un yw d'ogoniant  
â gogoniant dy Fab a'r Ysbryd Glân:  
yn angau Crist ar y Groes y mae ein heddwch ni  
ac yn ei atgyfodiad ef y mae ein gobaith am fywyd tragwyddol;  
moliannwn dy allu bywiocaol a'th ddoethineb,  
a wneir yn hysbys i ni drwy dy Ysbryd Glân:  
yn harddwch dy greadigaeth  
yn iachâd dy gariad cymodlawn  
ac yn y wybodaeth am dy wirionedd tragwyddol.  
Dathlwn ddirgeledd tri pherson  
cydradd mewn mawredd,  
diwahân mewn gogoniant,  
yn un Arglwydd, un Duw,  
i'w addoli a'i fawrygu'n dragwyddol.

(Colosiaid 1:20)

## Ffurfiâu ar y Fendith

Bydded i Dduw y Drindod Sanctaidd eich cryfhau mewn ffydd a chariad,  
a'ch arwain mewn gwirionedd a thangnefedd ...  
*Cymun Bendigaid 2004*

Neu:

Bydded i gariad y Tad eich cofleidio,  
i ddoethineb y Mab eich goleuo  
ac i dân yr Ysbryd Glân gynnu'n wenfflam yn eich calonnau...

Neu:

Bydded i Dduw'r Tad,  
a'n carodd ni gyntaf  
a'n gwneud yn gymeradwy yn yr Anwylyd,  
ein llanw â'i gariad. **Amen.**

Bydded i Dduw'r Mab,  
a'n carodd  
ac a'n golchodd oddi wrth ein pechodau trwy ei waed ei hun,  
roi i ni ei dangnefedd. **Amen.**

Bydded i Dduw'r Ysbryd Glân  
sy'n tywallt cariad Duw ar led yn ein calonnau  
ein hysbrydoli i offrymu iddo yr holl gariad a'r holl ogoniant  
dros amser a thros dragwyddoldeb **Amen.**

*Gweddi Ddyddiol 2009*

A bendith...

## Expanded

And now we give you thanks  
for you reveal your glory  
as the glory of your Son and the Holy Spirit:  
in Christ's death on the Cross, we find our peace  
and our hope of eternal life in his resurrection; (*Colossians 1.20*).  
we praise your lifegiving power and wisdom,  
made known to us through your Holy Spirit:  
in the beauty of your creation,  
in the healing of your reconciling love,  
and in the knowledge of your eternal truth.  
We celebrate the mystery of three persons  
equal in majesty,  
undivided in splendour,  
one Lord, one God,  
ever to be worshipped and adored.

## Blessings

God the Holy Trinity make you strong in faith and love,  
and guide you in truth and peace ...

*Or:*

May the love of the Father enfold you,  
the wisdom of the Son enlighten you  
and the fire of the Holy Spirit set your hearts ablaze...

*Or:*

May God the Father,  
who first loved us  
and made us accepted in the Beloved,  
fill us with his love. **Amen.**

May God the Son,  
who loved us,  
and washed us from our sins in his own blood,  
give us his peace. **Amen.**

May God the Holy Spirit,  
who sheds the love of God abroad in our hearts,  
inspire us to offer him all love and all glory,  
for time and for eternity. **Amen.**

DP2009

And the blessing...

### 3.3 TYMOR Y DEYRNAS

#### 3.3.1 YR HOLL SAINT

##### Rhagarweiniad i'r Gyffes

Mae Crist yn ein galw i'w gariad-wledd nefol  
gyda'r holl saint ar y ddaear ac yn y nef.  
Gan lwyr ddeall ein bod yn annheilwng  
gofynnwn i'r Arglwydd am drugaredd a maddeuant.

*Distawrwydd*

*Neu:*

Bu'r saint yn ffyddlon hyd at farwolaeth  
ac fe'u coronwyd â thorch gogoniant nad yw byth yn gwywo. (*1 Pedr 5:4*)  
A ninnau'n dathlu eu llawenydd  
dygwn gerbron yr Arglwydd ein pechodau a'n ffaeleddau,  
a gofyn am ei drugaredd.

*Distawrwydd*

##### Kyrïau

Arglwydd Iesu, ti yw'r esiampl o sancteiddrwydd,  
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

*Distawrwydd*

Arglwydd Iesu, yr wyt yn ein galw i dystiolaethu i'th wirionedd,  
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**

*Distawrwydd*

Arglwydd Iesu, yr wyt yn ein hanfon allan yn nerth yr Ysbryd,  
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

*Distawrwydd*

##### Croesawu'r Efengyl

Alelwia, Alelwia.

Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd,  
oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.

(*Mathew 5. 3*)

**Alelwia.**

Alelwia, Alelwia.

Yr ydych chi yn hil etholedig, yn offeiriadaeth frenhinol,  
yn genedl sanctaidd, yn bobl o'r eiddo Duw ei hun,  
a alwyd allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef.

(*1 Pedr 2:9*)

**Alelwia.**

### 3.3 KINGDOM SEASON

#### 3.3.1 ALL SAINTS

##### Introduction to Confession

Christ calls us to the heavenly feast of his love  
with all the saints in earth and heaven.

Knowing our unworthiness,  
let us ask the Lord for mercy and forgiveness.

*Silence*

*Or:*

The saints were faithful to death  
and have received the unfading crown of glory.

*1 Peter 5.4*

As we celebrate their joy,  
let us bring to the Lord our sins and weaknesses,  
asking for his mercy.

*Silence*

##### Kyries

Lord Jesus, you give us an example of holiness,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

*Silence*

Lord Jesus, you call us to witness to your truth,  
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

*Silence*

Lord Jesus, you send us out in the power of the Spirit,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

*Silence*

##### Gospel Acclamation

Alleluia, alleluia.

Blessed are the poor in spirit,  
for theirs is the kingdom of heaven.

**Alleluia.**

*Matthew 5. 3*

Alleluia, alleluia.

You are a chosen race, a royal priesthood,  
a holy nation, God's own people,  
called out of darkness into his marvellous light.

*1 Peter 2. 9*

**Alleluia.**

## Rhagarweiniad i'r Tangnefedd

Cyd-ddinasyddion ydym â'r saint ac aelodau o deulu Duw,  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd a ddaeth  
a phregethu heddwch i'r rhai pell a heddwch hefyd i'r rhai agos.

*Cymun Bendigaid 2004*

Neu:

Bydded i Dduw'r tangnefedd ei hun eich sancteiddio chwi:  
bydded iddo gadarnhau eich calonnau mewn sancteiddrwydd  
fel y byddwch yn ddi-fai ger ei fron  
yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist.

*(1Thes 5: 23, 3:12-13)*

## Gweddi i gyflwyno'r rhoddion

Dduw tragwyddol,  
gelwaist dy Saint i dystiolaethu dy fod di yng Nghrist  
yn cymodi'r byd â thi dy hun;  
derbyn y rhoddion hyn yr wyt yn ein gwahodd i'w rhannu mewn cariad.  
Trwy dy allu atgyfodedig a'th bresenoldeb iachaol  
deler â ni i'r llawenydd tragwyddol a addawyd i bawb o'th bobl ffyddlon,  
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

*(2 Cor. 5:19)*

## Rhaglithiau

### Syml

Yr adlewyrchir ei ogoniant  
ym mywydau dy saint.  
Ynddynt hwy rhoist inni esiamplau  
o ffyddlondeb a chariad.  
Yn eu sancteiddrwydd canfyddwn anogaeth a gobaith.  
Mewn cymundeb â hwy  
rhannwn yn undod dy deyrnas.

*Cymun Bendigaid 2004*

Neu:

### Estynedig

Ymlawenhawn yn dy gariad achubol,  
a wnaed yn hysbys inni gan gymaint torf o dystion.  
Yn yr apostolion a'r proffwydi, y merthyron a'r athrawon,  
a dynion a gwragedd ffyddlon ymhob oes  
rhoddaist inni etifeddiaeth gyfoethog o ffydd.  
Wedi ein hysbrydoli gan eu doethineb  
a'n cyfnerthu gan esiampl eu dewrder a'u dyfalbarhad,  
yr wyt yn ein cynorthwyo i redeg yr yrfa sydd o'r tu blaen heb ddiffygio.  
Ynghyd â holl saint y nef moliannwn di am obaith gogoniant,  
wrth inni barhau â'n pererindod o ffydd ar y ddaear.

## **Introduction to the Peace**

We are all citizens with the saints and belong to the family of God, through Jesus Christ our Lord who came and preached peace to those who were far away and to those who were near.

Ephesians 2. 19, 17  
*HE2004*

*Or:*

May the God of peace sanctify you:  
may he so strengthen your hearts in holiness  
that you may be blameless before him  
at the coming of our Lord Jesus Christ.

*1 Thessalonians 5.23, 3.13*

## **Prayer over the gifts**

Eternal God,  
you called your Saints to witness that you were in Christ  
reconciling the world to yourself;  
receive these gifts which you invite us to share in love.  
Through your risen power and healing presence,  
may we come to the eternal joys promised to all your faithful people,  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

*2 Cor 5.19*

## **Prefaces**

### **Simple**

Whose glory is reflected  
in the lives of your saints.  
In them you have given us examples  
of faithfulness and love.  
In their holiness we find encouragement and hope.  
In communion with them  
we share the unity of your kingdom.

*Cin W HE2004*

*Or:*

### **Expanded**

We rejoice in your saving love,  
made known to us through a great cloud of witnesses.  
In the apostles, prophets, martyrs, teachers,  
and faithful men and women of every age  
you have given us a rich inheritance of faith.  
Inspired by their wisdom,  
and strengthened through the example of their courage and perseverance,  
you help us to run the race set before us.  
With all the saints in heaven, we praise you for the hope of glory,  
as, on earth, we continue our pilgrimage of faith.

*Hebrews 12.1*

## **Ffuriau ar y Fendith**

Rhodded Duw ras i chwi i ddilyn ei seintiau mewn ffydd, gobaith a chariad ...

*Cymun Bendigaid 2004*

*Neu:*

Rhodded Duw ras i chwi i rannu etifeddiaeth ei saint mewn gogoniant ...

*Cymun Bendigaid 2004*

*Neu:*

Bydded i Dduw, Tad ein Harglwydd Iesu Grist,  
roddi i chwi ysbryd doethineb a datguddiad  
i adnabod y gobaith y galwyd chwi iddo. **Amen.**

Bydded i Dduw, a gyneuodd dân ei gariad  
yng nghalonnau'r saint,  
roddi i chwi gyfran yn llawenydd eu cymdeithas. **Amen.**

Bydded i Dduw, a roes i chwi ym mywydau'r saint, batrwm  
o fyw yn sanctaidd ac o farw'n sanctaidd,  
eich dwyn i rannu eu hetifeddiaeth. **Amen.**

*Gweddi Ddyddiol 2009*

A bendith....



## **Blessings**

God give you grace to follow his saints in faith and hope and love...

*Or:*

God give you grace to share the inheritance of his saints in glory...

*Or:*

God, the Father of our Lord Jesus Christ,  
give you the spirit of wisdom and revelation  
to know the hope to which you have been called. **Amen.**

God, who has kindled the fire of his love in the hearts of the saints,  
give you a share in the joy of their fellowship. **Amen.**

God, who, in the lives of the saints,  
has shown you a pattern of holy living and holy dying,  
bring you to share in their inheritance. **Amen.**

And the blessing...

### 3.3.2 YR HOLL ENEIDIAU

#### Rhagarweiniad i'r Gyffes

Gan gydnabod eiddilwch ein cyflwr dynol,  
galwn i gof ein pechodau ar air a gweithred,  
a'u cyffesu gerbron ein Duw a'n Tad.

*Distawrwydd*

*Neu:*

'Dywedodd Iesu, 'Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd,'  
'pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw. *(Ioan 11:25)*  
A ninnau'n ymddiried yn ffyddiog yn ei addewid, galwn i gof a chyffeswn ein pechodau.

*Distawrwydd*

#### Y Kyrïau

Arglwydd Iesu, trwy dy atgyfodiad  
cyfodir y llygradwy yn anllygradwy,  
Arglwydd trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

*Distawrwydd*

Arglwydd Iesu, trwy dy atgyfodiad  
gwisgir y corff marwol ag anfarwoldeb,  
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**

*Distawrwydd*

Arglwydd Iesu, trwy dy atgyfodiad  
llyncwyd angau mewn buddugoliaeth.  
Arglwydd trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

*(1 Cor 15:54)*

*Distawrwydd*

#### Croesawu'r Efengyl

Alelwia, alelwia.

Ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i yw hyn:  
nad wyf i gollu neb o'r rhai y mae ef wedi eu rhoi imi,  
ond fy mod i'w hatgyfodi yn y dydd olaf.

*(Ioan 6:39)*

**Alelwia.**

Alelwia, alelwia.

Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru,  
oherwydd cânt hwy eu cysuro.

*(Mathew 5:4)*

**Alelwia.**

### 3.3.2 ALL SOULS

#### Introduction to Confession

As we acknowledge our human frailty,  
we call to mind our sins in word and deed,  
and confess them before our God and Father.

*Silence*

*Or:*

I am the resurrection and the life, says the Lord;  
whoever lives and believes in me shall never die.  
Confident in that promise, let us call to mind and confess our sins.

*John 11.25*

*Silence*

#### Kyries

Lord Jesus, by your resurrection  
the perishable is raised imperishable,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy .**

*Silence*

Lord Jesus, by your resurrection  
the mortal body puts on immortality,  
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

*Silence*

Lord Jesus, by your resurrection  
death is swallowed up in victory,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

*1 Corinthians 15.54*

*Silence*

#### Gospel Acclamation

Alleluia, alleluia.  
It is the will of him who sent me  
that I should lose none of all he has given me,  
but raise them up on the last day.

**Alleluia.**

*John 6. 39*

Alleluia, alleluia.  
Blessed are those who mourn,  
for they will be comforted.

**Alleluia.**

*Matthew 5. 4*

## **Rhagarweiniad i'r Tangnefedd**

Dyweddod lesu, Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; yr wyf yn rhoi ichwi fy nhangnefedd i fy hun; tangnefedd na all y byd ei roi yw fy rhodd i chwi. (Ioan 14:27)

Neu:

Dyweddod lesu..., "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; (Ioan 11:25)

## **Gweddi i gyflwyno'r rhoddion**

Dduw tragwyddol,  
o'th gariad anfonaist dy Fab i'n harwain drwy farwolaeth i atgyfodiad;  
derbyn y rhoddion hyn, y'n cedwi ni drwyddynt yn y bywyd tragwyddol.  
Dyro i ni, wrth alw i gof ffydd dy holl weision ymadawedig,  
fod yn gyfrannog gyda hwy yn dy deyrnas dragwyddol,  
trwy lesu Grist ein Harglwydd. **Amen**

## **Rhaglithiau**

### **Syml**

A gyfododd yn fuddugoliaethus o blith y meirw,  
ac sy'n ein cysuro ni  
â'r gobaith gwynfydedig o fywyd tragwyddol.  
I'th bobl ffyddlon di, O Arglwydd,  
newidir bywyd ond nid ei gymryd ymaith,  
ac wedi dileu'r corff anianol hwn gan angau,  
fe ddarperir cartref tragwyddol inni  
yn y nefoedd gyda thi.

*Cymun Bendigaid 2004*

Neu:

### **Estynedig**

Ynddo ef gorchfygaist angau ac agor teyrnas nefoedd  
fel, wedi ei gyfodi ef oddi wrth y meirw,  
y cawn ninnau gyfran yn ei fywyd atgyfodedig.  
Gosodaist y gobaith hwn o'n blaen, (1 Pedr 1:3-4)  
a'n galw i etifeddiaeth na ellir na'i difrodi, na'i difwyno, na'i difa  
ynghadw yn dy deyrnas dragwyddol.  
Disgwyliwn am gyflawniad dy addewid  
na cheir mwyach na galar na llefain na phoen,  
ac y byddi di dy hun yn sychu pob deigr yn o'n llygaid. (Dat. 21:4)

## Introduction to the Peace

Jesus said, Peace I bequeath to you; my own peace I give you; a peace the world cannot give, this is my gift to you.

*John 14.27  
HE 2004*

*Or:*

I am the resurrection and the life, says the Lord; whoever lives and believes in me shall never die.

*John 11. 25*

## Prayer over the gifts

Eternal God,  
in your love, you sent your Son to lead us through death to resurrection;  
receive these gifts, by which you keep us in eternal life.  
Grant that, as we recall the faith of all your servants now departed,  
we may come to share with them in your everlasting kingdom,  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

## Prefaces

### Simple

Who rose victorious from the dead  
and comforts us with the blessed hope of everlasting life.  
For your faithful people, Lord,  
life is changed but not taken away  
and, when this mortal body is laid aside in death,  
an everlasting dwelling place is made ready for us  
in heaven with you.

*CinW HE2004*

*2 Corinthians 5.1*

*Or:*

### Expanded

In him you have overcome death and opened the kingdom of heaven  
that, as you raised him from the dead, we might share his risen life.  
You have set this hope before us,  
calling us to an imperishable, undefiled and unfading inheritance,  
reserved in your everlasting kingdom.  
We look for the fulfilment of your promise  
that sorrow and pain will be no more  
as you wipe away the tears from every eye.

*1 Peter 1.3-4*

*Revelation 21.4*

## **Ffuriau ar y Fendith**

Rhodded Duw ichwi  
ei ddiddanwch a'i dangnefedd, ei oleuni a'i lawenydd,  
yn y byd hwn a'r byd sydd i ddod; a bendith ...

*Gwasanaethau Angladd 2020*

*Neu:*

Bydded i Dduw yn ei gariad a'i drugaredd diderfyn  
ddwyn yr Eglwys gyfan,  
y byw a'r meirw yn yr Arglwydd Iesu, i atgyfodiad llawen  
a chyflawniad ei deyrnas dragwyddol; a bendith ...

*Gwasanaethau Angladd 2020*

*Neu:*

Bydded Duw'r oesoedd yn noddfa i chwi, a gwybyddwch mai oddi tanodd y mae'r breichiau  
tragwyddol. **Amen.** (Deuteronomium 33. 27)

Bydded i Grist ddwyn (E. a(c)) a'r holl ffyddloniaid ymadawedig drwy ddyfroedd dyfnion  
marwolaeth i atgyfodiad llawen. **Amen.**

Bydded i'r Ysbryd Glân, y Diddanydd, eich nerthu i gerdded yn y ffordd sy'n arwain at  
gyflawnder y bywyd tragwyddol. **Amen.**

A bendith...

## **Blessings**

May God give you  
his comfort and his peace,  
his light and his joy,  
in this world and the next; and the blessing...

*(C in W Funeral Services 2019)*

*Or:*

May God in his infinite love and mercy  
bring the whole Church,  
living and departed in the Lord Jesus,  
to a joyful resurrection  
and the fulfilment of his eternal kingdom; and the blessing... *(C in W Funeral Services 2019)*

*Or:*

May the eternal God be your refuge, and underneath may you know the everlasting arms.  
**Amen.**

May Christ bring (*N. and*) all the faithful departed through the deep waters of death to a joyful resurrection. **Amen.**

May the Holy spirit, the Comforter, strengthen you to walk in the way which leads to the fulness of eternal life. **Amen.**

And the blessing...

### 3.3.3 Y COFIO

#### Rhagarweiniad i'r Gyffes

Cyffeswn i Dduw bechodau a ffaelecteddau'r byd;  
ei falchder, ei hunanoldeb, ei drachwant,  
ei raniadau ysgeler a'i anghariad.

Cyffeswn ein rhan ni yn yr hyn sydd o'i le,

a'n methiant ni i weithredu yn ein bywydau y tangnefedd y mae Duw yn ei ewyllysio i bawb.

*Distawrwydd*

#### Kyriau

Arglwydd Iesu, yr wyt yn ein harwain ar hyd ffordd gwirionedd  
ac yn cyfeirio ein traed i lwybrau tangnefedd.

*(Luc 1: 78-79)*

Arglwydd, trugarha.

**Arglwydd, trugarha.**

*Distawrwydd*

Arglwydd Iesu, cefaist dy ddyrchafu ar y Groes  
gan dynnu pawb atat ti dy hun, *(Ioan 12:32)*

Crist, trugarha.

**Crist, trugarha.**

*Distawrwydd*

Arglwydd Iesu, dy Ysbryd sydd yn ein hailgreu  
ac yn adnewyddu wyneb y ddaear,

*(Salm 104:30)*

Arglwydd, trugarha.

**Arglwydd, trugarha.**

*Distawrwydd*

#### Croesawu'r Efengyl

Alelwia, alelwia.

Ewyllys yr hwn a'm hanfonodd i yw hyn:

nad wyf i golli neb o'r rhai y mae ef wedi eu rhoi imi,

ond fy mod i'w hatgyfodi yn y dydd olaf.

*(Ioan 6:39)*

**Alelwia.**

#### Rhagarweiniad i'r Tangnefedd

Pa beth a gais yr Arglwydd gennyf?

Dim ond gwneud beth sy'n iawn,

caru teyrngarwch,

ac ymostwng i rodio'n ostyngedig gyda'th Dduw.

*(Micha 6:8)*



### 3.3.3 REMEMBRANCE

#### Introduction to Confession

Let us confess to God the sins and shortcomings of the world;  
its pride, its selfishness, its greed;  
its evil divisions and hatreds.  
Let us confess our share in what is wrong,  
and our failure to live out that peace which God wills for all people.

*Silence*

#### Kyries

Lord Jesus, you guide us in the way of truth  
leading us in the pathways of peace,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

*Luke 1.79*

*Silence*

Lord Jesus, you were lifted up on the Cross  
drawing all people to yourself,  
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

*John 12.32*

*Silence*

Lord Jesus, your Spirit recreates us,  
renewing the face of the earth,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

*Psalms 104.30*

*Silence*

#### Gospel Acclamation

Alleluia, alleluia.  
It is the will of him who sent me  
that I should lose none of all he has given me,  
but raise them up on the last day.  
**Alleluia.**

*John 6. 39*

#### Introduction to the Peace

What does the Lord require of you  
but to do justice,  
and to love kindness,  
and to walk humbly with your God?

*Micah 6.8*

## **Gweddi i gyflwyno'r rhoddion**

Dduw cariadus,  
yr wyt yn adfer pob peth yn dy annwyl Fab, Tywysog Tangnefedd;  
derbyn y rhoddion hyn a thynn ni'n nes at ein gilydd.  
Dyro i ni, wedi ein gwneud yn un â thi yn y Sacrament hwn,  
ymdeimlo â'th dangnefedd a'th gyfiawnder  
sy'n gorchfygu ein chwerwedd a'n balchder,  
drwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

## **Rhaglithiau**

### **Syml**

Ynndo ef yr wyt yn ein gwaredu o afael galluoedd y tywyllwch a phechod (*Col 1: 13*)  
a'n trosglwyddo i oleuni a thangnefedd dy deyrnas di.  
Trwy dy angau cawsom fywyd,  
a thrwy dy atgyfodiad cawsom ein gollwng yn rhydd.

Neu:

### **Estynedig**

Yn ei ewyllys ef y mae ein heddwch,  
ac yn ei aberth berffaith y mae ein cymod.  
Oherwydd yr wyt ti'n barnu rhwng cenedloedd, ymhell ac agos;  
yn dy deyrnas berffaith  
bydd cleddyfau'n cael eu curo'n geibiau, a gwaywffyn yn grymanau;  
ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach  
a bydd pob un yn eistedd dan ei winwydden a than ei ffigysbren,  
heb neb i'w ddychryn.

(*Micha 4:3-4*)

### **Ffurfiâu ar y Fendith**

Ewch allan i'r byd mewn tangnefedd; byddwch gadarn a dewr.  
Deliwch at yr hyn sydd dda ac na thelwch drwg am ddrwg.  
Cysurwch y gwan-galon, cynorthwywch y rhai eiddil, cefnogwch y sawl sydd mewn angen;  
anrhydeddwch bawb,  
cerwch a gwasanaethwch yr Arglwydd  
gan lawenhau yn nerth yr Ysbryd Glân,  
a bendith....

## **Prayer over the gifts**

Loving God,  
you restore all things in your beloved Son, the Prince of peace;  
receive these gifts and draw us closer to one another.  
Grant that, united with you in this Sacrament,  
we may find your peace and justice,  
which overcomes our bitterness and pride,  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

## **Prefaces**

### **Simple**

In him you deliver us from the powers of darkness and sin  
and bring us into your kingdom of light and peace.  
Through your death you brought us life,  
and by your resurrection you set us free.

*Colossians 1.13*

*Or:*

### **Expanded**

In whose will is our peace,  
and in whose perfect sacrifice we find our reconciliation.  
For you judge between many peoples, far and near;  
in your perfect kingdom  
they shall beat their swords into ploughshares,  
and their spears into pruning-hooks;  
nation shall not lift up sword against nation,  
neither shall they learn war any more;  
all shall sit under their own vines and their own fig trees,  
and no one shall make them afraid.

*Micah 4.3-4*

## **Blessings**

Go forth into the world in peace.  
Be of good courage.  
Hold fast that which is good.  
Render to no one evil for evil.  
Strengthen the fainthearted; support the weak;  
Help the afflicted; honour one another;  
Love and serve the Lord,  
rejoicing in the power of the Holy Spirit;  
and the blessing...

Neu:

Rhodded Duw ei ras i'r byw  
a gorffwys i'r ymadawedig;  
i'r Eglwys, y Frenhines,  
y Gymanwlad, a'r holl ddynoliaeth  
rhodded hedd a chytgord;  
ac i ni a'i holl weision, fywyd tragwyddol,  
a bendith.....

Neu:

Bydded i Dduw a wnaeth y byd, sefydlu cyfiawnder a heddwch ymhlith teyrnasoedd y  
ddaeir. **Amen.**

Bydded i Grist, Tywysog Tangnefedd, roi i chwi ei dangnefedd ef ei hun; tangnefedd na all y  
byd ei roi. **Amen.**

Bydded i'r Ysbryd Glân roi doethineb, dewrder a dealltwriaeth i bawb sydd mewn awdurdod  
a'n hysbrydoli ni, ynghyd â hwy, i wasanaethu lles y cyffredin.  
a bendith....

Or:

God grant to the living, grace;  
to the departed, rest;  
to the Church, the Queen,  
the Commonwealth, and all humankind,  
peace and concord;  
and to us and all his servants, life everlasting;  
and the blessing ...

*(CW Adapted)*

Or:

May God who made the world establish justice and peace among the kingdoms of the earth.  
**Amen.**

May Christ, the Prince of Peace, grant to you his own peace; the peace the world cannot  
give. **Amen.**

May the Holy Spirit give wisdom, courage and understanding to all in authority and inspire  
us with them to serve the common good. **Amen.**

and the blessing...

### 3.3.4 GŴYL CRIST Y BRENIN

#### Rhagarweiniad i'r Gyffes

Dywed Iesu, 'Edifarhewch, oherwydd y mae teyrnas nefoedd wedi dod yn agos.' (Mat 4:17)  
Cefnwn ar bechod a throi at Grist, gan gyffesu ein pechodau mewn edifeirwch a ffydd.  
*Distawrwydd*

Neu:

Gan fod gennym, felly, archoffeiriad mawr sydd wedi mynd drwy'r nefoedd, sef Iesu, Mab Duw, gadewch inni nesáu â chalon gywir, yn llawn hyder ffydd, a chyffesu ein pechodau yn ostyngedig, mewn edifeirwch a ffydd. (Heb 4:14-16)  
*Distawrwydd*

Neu:

Iesu yw ein harchoffeiriad, sydd wedi ei demtio ym mhob peth, yn yr un modd â ni, ac eto heb bechod.

Ef yw'r Arglwydd byw sydd yn eistedd ar ddeheulaw'r Tad ac yn eiriol trosom;  
drwyddo ef cawn nesáu mewn hyder at orsedd gras;  
gan hynny cyffeswn ein pechodau mewn edifeirwch a ffydd. (Heb 4:14-16)  
*Distawrwydd*

#### Y Kyriau

Arglwydd Iesu, nid yw dy deyrnas o'r byd hwn,  
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.** (Ioan 18:36)  
*Distawrwydd*

Arglwydd Iesu, cyfiawnder a heddwch yw dy deyrnas di,  
Crist trugarha. **Crist, trugarha.** (Rhuf. 14:17)

Arglwydd Iesu, llawenydd yn yr Ysbryd Glân yw dy deyrnas di.  
Arglwydd trugarha. **Arglwydd, trugarha.**  
*Distawrwydd*

#### Croesawu'r Efengyl

Alelwia, alelwia.  
Bendigedig yw'r un sy'n dod yn frenin yn enw'r Arglwydd;  
yn y nef, tangnefedd, a gogoniant yn y goruchaf.  
**Alelwia.** (Luc 19:38)

Neu:

Alelwia, alelwia.  
Ti, Grist, yw Brenin y gogoniant,  
ti yw tragwyddol Fab y Tad.  
**Alelwia.**

*O'r Gantigl 'Te Deum Laudamus.'*

### 3.3.4 CHRIST THE KING

#### Introduction to Confession

Jesus says, 'Repent, for the kingdom of heaven is close at hand.'  
Let us turn away from sin and turn to Christ, confessing our sins  
in penitence and faith.

*Silence*

*Matthew 4. 17*

*Or:*

Seeing we have a great high priest who has passed through the heavens,  
Jesus the Son of God, let us draw near with a true heart, in full assurance of faith,  
and humbly confess our sins in penitence and faith.

*Silence*

*Hebrews 4. 14-16*

*Or:*

Jesus is our high priest, tempted like us, yet without sin.  
He lives for ever in heaven to intercede for us;  
through him we can approach the throne of grace with confidence;  
so let us confess our sins in penitence and faith.

*Silence*

*Hebrews 4.16*

#### Kyries

Lord Jesus, your kingdom is not of this world,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

*Silence*

*John 18.36*

Lord Jesus, your kingdom is justice and peace,  
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

*Silence*

*Romans 14.17*

Lord Jesus, your kingdom is joy in the Holy Spirit,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

*Silence*

#### Gospel Acclamation

Alleluia, alleluia.

Blessed is the King who comes in the name of the Lord.  
Peace in heaven and glory in the highest.

**Alleluia.**

*Luke 19. 38*

*Or:*

Alleluia, alleluia.

You, Christ, are the King of glory,  
the eternal Son of the Father.

**Alleluia.**

*From the Canticle "Te Deum Laudamus"*

## **Rhagarweiniad i'r Tangnefedd**

Yn goron ar bopeth gwisger cariad,  
i rwymo'r oll ynghyd a chyfannu'r cwbl.  
Bydded i dangnefedd Crist lywodraethu yn ein calonnau.

*(Col 3:14-15)*

Neu:

Cyfiawnder, tangnefedd a llawenydd yn yr Ysbryd Glân yw teyrnas Dduw.  
*Cymun Bendigaid 2004*

Neu:

Mae'r Arglwydd atgyfodedig yn eistedd ar ddeheulaw'r Tad,  
Ef yw Tywysog Tangnefedd.

*(Hebreaid 10:12)*  
*(Eseia 9:6)*

## **Gweddi i gyflwyno'r rhoddion**

Dad tragwyddol  
esgynnodd dy Fab, Iesu Grist, i'r nefoedd,  
i deyrnasu gyda thi mewn gogoniant.  
Derbyn y rhoddion hyn yn offrwm o'n gwasanaeth;  
Ac â thi yn llywodraethwr ac arweinydd,  
dyro i ni ddyfod i lawnder dy deyrnas dragwyddol,  
drwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

## **Rhaglithiau**

### **Syml**

Sy'n arglwydd ar yr holl greadigaeth,  
fel y bo iddo gyflwyno i ti  
deyrnas fyd-eang a thragwyddol,  
teyrnas bywyd a gwirionedd,  
teyrnas gras a sancteiddrwydd,  
teyrnas cyfiawnder  
a chariad a thangnefedd. *Cymun Bendigaid 2004*

Neu:

### **Estynedig**

Ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio  
ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas,  
ac, o'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun,  
gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes.  
Moliannwn di am iti ei dra-dyrchafu  
a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw,  
fel wrth enw Iesu y plygai pob glin,  
ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Arglwydd ac yn frenin. *(Philippaidd 2:6-11)*



## **Introduction to the Peace**

To crown all things there must be love,  
to bind all together and complete the whole.  
Let the peace of Christ rule in our hearts.

*Colossians 3. 14-15*

*Or:*

The kingdom of God is righteousness, peace and joy in the Holy Spirit.

*Romans 14.17*  
*HE 2004*

*Or:*

The risen Lord reigns at the right hand of the Father.  
He is the Prince of Peace.

*Hebrews 10.12*  
*Isaiah 9.6*

## **Prayer over the gifts**

Eternal God,  
your Son Jesus Christ ascended into heaven,  
to reign with you in glory.  
Receive these gifts as an offering of our service;  
and grant that, with you as our ruler and guide,  
we may come to the fulness of your everlasting kingdom,  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

## **Prefaces**

### **Simple**

Whose dominion is over all creation,  
that he may present to you  
an eternal and universal kingdom,  
a kingdom of life and truth,  
of grace and holiness,  
a kingdom of righteousness and justice,  
of love and peace.

*CinW HE2004*

*Or:*

### **Expanded**

He did not cling to equality with God  
but emptied himself, taking the form of a servant,  
and, being found in human likeness, humbled himself  
and accepted death, even death on a cross.  
We praise you that now he is highly exalted,  
and given the name above every name,  
that at the name of Jesus every knee should bend,  
and every tongue confess that he is Lord and king.

*Philippians 2.1-11*

## **Ffuriau ar y Fendith**

Bydded i Grist y Brenin eich gwneud yn ffyddlon a chryf i gyflawni ei ewyllys  
a'ch dwyn i deyrnasu gydag ef yn ei ogoniant ...

*Cymun Bendigaid 2004*

*Neu:*

Bydded i Grist, Haul Cyfiawnder, lonni eich calonnau â newyddion da ei deyrnas ...

*Neu:*

Bydded i Grist y Brenin deyrnasu yn eich calonnau  
fel y dygoch ffrwyth sancteiddrwydd. **Amen.**

Bydded i Grist y Brenin ddatguddio i chwi ei fawrhydi,  
fel y bo i chwi nesáu ato ef mewn parchedig ofn. **Amen.**

Bydded i Grist y Brenin eich cryfhau mewn ffydd a chariad,  
fel y teyrnasoch gydag ef mewn gogoniant. **Amen.**

*Gweddi Ddyddiol 2009*

A bendith ...

## **Blessings**

Christ the King make you faithful and strong to do his will,  
and bring you to reign with him in glory ...

*Or:*

Christ, the Sun of righteousness,  
gladden your hearts with the good news of his kingdom...

*Or:*

Christ the King rule in your hearts  
that you may bear the fruits of holiness. **Amen.**

Christ the King reveal to you his majesty,  
that you may draw near to him with awe and reverence. **Amen.**

Christ the King make you strong in faith and love,  
that you may reign with him in glory. **Amen.**

And the blessing...

(DP2009)

### 3.3.5 Y DEYRNAS - CYFFREDINOL

#### Rhagarweiniad i'r Gyffes

Dywed Iesu, 'Edifarhewch, oherwydd y mae teyrnas nefoedd wedi dod yn agos.'  
Bydded inni ymwrthod â phechod a throi at Grist, gan gyffesu ein pechodau  
mewn edifeirwch a ffydd. (Mathew 4:17)

*Distawrwydd*

#### Y Kyriau

Arglwydd Iesu, nid yw dy deyrnas di o'r byd hwn, (Ioan 18:36)

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

*Distawrwydd*

Arglwydd Iesu, cyfiawnder a heddwch yw dy deyrnas di, (Rhuf. 14:17)  
Crist, trugarha. **Crist trugarha.**

*Distawrwydd*

Arglwydd Iesu, llawenydd yn yr Ysbryd Glân yw dy deyrnas di,

Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

*Distawrwydd*

#### Croesawu'r Efengyl

Alelwia, alelwia.

Aeth brenhiniaeth y byd

yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef,  
a bydd yn teyrnasu byth bythoedd. (Dat. 11:15)

**Alelwia.**

#### Rhagarweiniad i'r Tangnefedd

Cyfiawnder, tangnefedd a llawenydd yn yr Ysbryd Glân yw Teyrnas Dduw.

(Rhuf. 14:17)

#### Gweddi i gyflwyno'r rhoddion

Dduw tragwyddol,

y dysgodd dy Fab Iesu Grist inni weddio y delai dy deyrnas,  
derbyn y rhoddion hyn a offrymwn mewn ffydd a gobaith.

Gwneler dy ewyllys di,

ar y ddaear fel yn y nef,

a dyro inni fod yn un â thi

yng ngwledd dragwyddol dy deyrnas,

trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

### 3.3.5 KINGDOM SEASON – GENERAL

#### Introduction to Confession

Jesus says, 'Repent, for the kingdom of heaven is close at hand.'  
Let us turn away from sin and turn to Christ, confessing our sins  
in penitence and faith.

*Silence*

*Matthew 4. 17*

#### Kyries

Lord Jesus, your kingdom is not of this world,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

*Silence*

*John 18.36*

Lord Jesus, your kingdom is justice and peace,  
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

*Silence*

*Romans 14.17*

Lord Jesus, your kingdom is joy in the Holy Spirit,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

*Silence*

#### Gospel Acclamation

Alleluia, alleluia.

The kingdom of the world  
has become the Kingdom of our God and of his Messiah  
and he shall reign for ever and ever.

**Alleluia.**

*Revelation 11.15*

#### Introduction to the Peace

The kingdom of God is righteousness, peace and joy in the Holy Spirit.

*Romans 14.17*  
*HE 2004*

#### Prayer over the gifts

Eternal God,  
whose Son Jesus Christ taught us to pray for your kingdom to come,  
receive these gifts we offer in faith and hope.

Grant that your will may be done  
on earth as it is in heaven,  
and that we may be united with you  
in the eternal banquet of your kingdom,  
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

## Rhaglithiau

### Syml

Sy'n arglwydd ar yr holl greadigaeth,  
fel y bo iddo gyflwyno i ti  
deyrnas fyd-eang a thragwyddol,  
teyrnas bywyd a gwirionedd,  
teyrnas gras a sancteiddrwydd,  
teyrnas cyfiawnder  
a chariad a thangnefedd.

*Cymun Bendigaid 2004*

*Neu:*

### Estynedig

Wedi iddo ei lanw ag Ysbryd yr Arglwydd  
pregethodd ddyfodiad dy deyrnas,  
gan gyhoeddi newyddion da i'r tlodion,  
rhyddhad i garcharorion,  
adferiad golwg i'r deillion,  
ac i'r gorthrymedig, y caent gerdded yn rhydd.  
Moliannwn di am fendithion dy deyrnas dragwyddol,  
sy'n eiddo i'r tlodion yn yr ysbryd;  
oherwydd yno y cysurir y galarwyr,  
yr etifedda'r addfwyn y ddaear,  
y digonir y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfiawnder,  
y derbynia'r trugarog drugaredd  
ac y caiff y pur o galon weld dy wyneb.

*(Luc 4:18-19)*

### Ffurfiâu ar y Fendith

Bydded i Grist ein Brenin dyrchafedig dywallt arnoch ei roddion helaeth  
fel y gallwch ei wasanaethu ef a theyrnasu gydag ef yn ei ogoniant ...

*Cymun Bendigaid 2004*

*Neu:*

Rhodded Crist ichwi ras i ufuddhau i'w orchymyn i fynd a gwneud disgyblion o'r holl  
genhedloedd,  
ac i wybod ei fod ef gyda chwi hyd ddiwedd amser..... *(Mat 28:19-20)*

## **Prefaces**

### **Simple**

Whose dominion is over all creation,  
that he may present to you  
an eternal and universal kingdom,  
a kingdom of life and truth,  
of grace and holiness,  
a kingdom of righteousness and justice,  
of love and peace.

*CinW HE2004*

*Or:*

### **Expanded**

Filled with the power of your Spirit,  
he preached your coming kingdom,  
proclaiming good news to the poor,  
release to the captives,  
recovery of sight to the blind,  
and freedom to the oppressed.

*Luke 4.18-19*

We praise you for the blessings of your eternal kingdom,  
which belong to the poor in spirit;  
for there the mourners are comforted,  
the meek inherit the earth,  
the hungry are satisfied in righteousness,  
the merciful receive mercy,  
and the pure in heart see your face.

*Matthew 5.1-8*

## **Blessings**

Christ our exalted King pour on you his abundant gifts  
that you may serve him and reign with him in glory ...  
And the blessing...

*Or:*

Christ give you grace to go in obedience to his command,  
to make disciples of all the nations,  
and to know he is with you to the end of the age...  
And the blessing...

*Matthew 28.19-20*

Neu:

Bydded i Dduw'r Tad  
a roddodd i'w Fab yr enw sydd goruwch pob enw, (Philipiaid 2:9)  
ddyrchafu eich calonnau i'w addoli mewn ysbryd a gwirionedd (Ioan 4:24)

Bydded i Grist, ein Brenin dyrchafedig  
dywallt arnoch ei ddoniau helaeth,  
fel y galloch ei wasanaethu a theyrnasu gydag ef mewn gogoniant. **Amen.**

Bydded i'r Ysbryd Glân  
eich cymryd yn y diwedd i'ch trigfan nefol  
lle yr aeth Crist i baratoi lle i chwi. **Amen.** (Ioan 14:2-3)

A bendith...



Or:

May God the Father,  
who has given his Son the name above every name,  
lift up your hearts to worship in spirit and in truth. **Amen.**

*Philippians 2.9*

Or:

May Christ, our exalted King,  
pour upon you his abundant gifts  
that you may serve him and reign with him in glory. **Amen.**

May the Holy Spirit,  
draw you at the last to your heavenly home,  
where Christ has gone to prepare a place for you. **Amen.**

*John 14.2-3; DP2009*

And the blessing...

### 3.4 DYDDIAU'R CATGORIAU

#### Kyriau

Arglwydd Iesu, daethost i gysuro'r rhai sy'n galaru,  
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

*Distawrwydd*

Arglwydd Iesu, daethost i beri i'r gorthrymedig gerdded yn rhydd, (Luc 4:18-19)  
Crist, trugarha. **Crist, trugarha.**

*Distawrwydd*

Arglwydd Iesu, daethost i gyhoeddi blwyddyn ffafwr yr Arglwydd,  
Arglwydd, trugarha. **Arglwydd, trugarha.**

*Distawrwydd*

#### Gweddi i gyflwyno'r rhoddion

Dduw, ein nerth a'n gwaredwr,  
fe'n gelwi i roi o'r neilltu yr hyn a aeth heibio  
ac i'th ddilyn di lle bynnag yr arweini;  
derbyn y rhoddion hyn er lles pawb o'th bobl ffyddlon.  
Gan ddilyn ôl traed ein Harglwydd Iesu Grist,  
bydded inni amlygu dy gariad mewn gair a gweithred,  
drwy'r un Iesu Grist, dy Fab, ein Harglwydd ni. **Amen.**

#### Rhaglithiau

##### Syml

A gysegrodd y rhai a dderbyniodd ei alwad  
i ddilyn ffordd y groes.  
Trwyddo ef gelwaist  
y rhai a ordeiniwyd i weinidogaethu yn dy Eglwys  
i gyhoeddi'r Newyddion Da,  
i ofalu am dy bobl  
ac i weinyddu mewn llawenydd  
sacramentau dy deyrnas.

*Cymun Bendigaid 2004*

### 3.4 EMBER DAYS

#### Kyries

Lord Jesus, you came to comfort those who mourn,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

*Silence*

Lord Jesus, you came to let the oppressed go free,  
Christ, have mercy. **Christ, have mercy.**

*Luke 4.18-19*

*Silence*

Lord Jesus, you came to proclaim the year of the Lord's favour,  
Lord, have mercy. **Lord, have mercy.**

*Silence*

#### Prayer over the gifts

God, our strength and our redeemer,  
you call us to leave the past behind  
and follow wherever you lead;  
receive these gifts for the good of all your faithful people.  
Following in the footsteps of our Lord Jesus Christ,  
may we make your love known in word and deed  
through the same Jesus Christ, your Son, our Lord. **Amen.**

#### Prefaces

##### Simple

Who consecrated those who obeyed his call  
to follow the way of the cross.  
Through him you have called  
those ordained for ministry in your Church  
to proclaim the good news,  
to care for your people  
and to celebrate joyfully  
the sacraments of your kingdom.

*C in W HE 2004*

Neu:

### **Estynedig**

Yr wyt yn galw dy wasanaethwyr i fod yn weinidogion yn dy Eglwys  
fel, trwy ffyddlondeb eu bywydau hwy,  
y daw pobl luosog at Dduw mewn ffydd;  
drwy efengylu mewn llawenydd  
bydded i'th deyrnas dyfu;  
a thrwy'r rhodd o sancteiddrwydd  
bydded i'th ogoniant gael ei amlygu.  
Drwy'r bedydd,  
yr wyt yn nerthu dy bobl ffyddlon i dyfu mewn cariad a gwasanaeth,  
ac yn ein galluogi i gyflawni dy genhadaeth a'th weinidogaeth.  
Moliannwn di am ddoniau dy Ysbryd Glân,  
a ddwg wybodaeth a nerth mewnol,  
fel y byddo ein hyfrydwch yn ofn yr Arglwydd.

### **Ffurfiâu ar y Fendith**

Bydded i gariad yr Arglwydd Iesu eich tynnu ato ef ei hun;  
bydded i nerth yr Arglwydd Iesu eich cryfhau yn ei wasanaeth;  
a bydded i lawenydd yr Arglwydd Iesu lenwi eich calonnau ...

*(William Temple, addaswyd)*

A bendith.....

Neu:

Bydded i Dduw, a alwodd Abraham, Moses a Debora, godi gweinidogion ffyddlon i'r Eglwys  
heddiw. **Amen.**

Bydded i'r Arglwydd Iesu Grist, a alwodd y pysgotwyr i adael eu rhwydi, roi ichwi ras i  
glywed ei alwad i fywyd o wasanaeth. **Amen.**

Bydded i'r Ysbryd Glân, sy'n ysgogi ynoch ddoniau Duw, eich galluogi i ddod o hyd i'ch gwir  
alwedigaeth. **Amen.**

A bendith...

Or:

### **Expanded**

You call your servants to ministry in your Church:  
that, through lives of faithfulness,  
many may come to faith;  
through joyful evangelism,  
your kingdom may grow;  
and by the gift of holiness,  
your glory may be made known.  
Through baptism,  
You strengthen your faithful people to grow in love and service,  
and enable us to fulfil your mission and ministry.  
We praise you for the gifts of your Holy Spirit,  
bringing knowledge and inward strength,  
that our delight may be in the fear of the Lord.

### **Blessings**

May the love of the Lord Jesus draw us to himself;  
the power of the Lord Jesus strengthen us in his service;  
and the joy of the Lord Jesus fill our hearts and minds;

and the blessing...

*(William Temple, adapted)*

Or:

May God, who called Abraham, Moses and Deborah, raise up faithful ministers for the Church today. **Amen.**

May the Lord Jesus Christ, who called the fishermen to leave their nets, give you grace to hear his call to a life of service. **Amen.**

May the Holy Spirit, who stirs up in you the gifts of God, enable you to find your true vocation. **Amen.**

and the blessing...





